Cyngor Sir Ceredigion

Gwybodaeth i Rieni am Ysgolion Ceredigion

J. Barry Rees
Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau

Medi 2016

Cyngor Sir CEREDIGION
GWASANAETHAU DYSGU
J. Barry Rees
Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau

CEREDIGION County Council
LEARNING SERVICES
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE
% 01970 633601
Fax 01970 633663

LLYTHYR ODDI WRTH Y CYFARWYDDWR STRATEGOL

Medi, 2016

Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn unol â'r gyfraith, mae'n ofynnol ar bob Awdurdod Lleol i roi cyfle i rieni/warcheidwaid fynegi pa ysgol fyddai orau ganddynt i'w plant ei mynychu. Dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnewch ar ran eich plentyn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amlinelliad o bolisïau Awdurdod Lleol Ceredigion ac fe'i paratowyd i gynorthwyo rhieni. Gallai Llywodraethwyr a Phrifathrawon ddarparu manylion ychwanegol sy'n ymwneud â'u hysgolion hwy.

Fel rhiant/gwarcheidwad, mae gennych hawl i ddisgwyl addysg dda ar gyfer eich plentyn. Pwysig hefyd yw eich diddordeb chi yng ngwaith ysgol eich plentyn, a bydd hynny'n annog yr ysgol ac yn hyrwyddo ymdrechion yr athrawon. Mae nifer o ysgolion yn meddu ar Gymdeithas Rhieni neu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Gallwch ymuno â'r rhain gan ennill y cyfle i ymwneud â gweithgareddau'r ysgol ac â'r Gwasanaethau Dysgu yng Ngheredigion.

Efallai y byddai o ddiddordeb gennych i wybod bod cynrychiolwyr y rhieni yn gwasanaethu ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol, ac etholir y rhain gan y rhieni eu hunain, fel arfer pob pedair blynedd. Bob blwyddyn byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig am y gwaith a gyflawnwyd gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol.

Gobeithio y bydd eich plentyn yn ymgartrefu'n rhwydd yn ei h/ysgol newydd ac yn elwa ar yr amryfal gyfleoedd a gynigir iddo/i.

Hyderaf y bydd y llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i chi ac y bydd yn hybu gwell dealltwriaeth rhwng y rhieni/gwarcheidwaid a'r Gwasanaethau Dysgu yn gyffredinol.

Yn gywir

J. Barry Rees

Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau

Cynnwys

	TUD
CYFLWYNIAD	**1**
Y GWASANAETHAU DYSGU YNG NGHEREDIGION: AMLINELLIAD CRYNO	**2**
GWYBODAETH BELLACH	**3**
CYFRIFOLDEBAU RHIEINIOL	**4**
MYNEDIAD DISGYBLION I YSGOLION	**5**
MATHAU O YSGOLION	**5**
DEWIS YSGOL	**6**
GWRTHODIAD AC APÊL	**7**
DERBYN I YSGOL	**8**
ADDYSG FEITHRIN	**8**
YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOL GYDA DOSBARTH MEITHRIN	**8**
YMUNO Â YSGOL GYNRADD / DOSBARTH DERBYN	**9**
YMUNO AG YSGOL UWCHRADD	**9**
DYDDIAD GADAEL YSGOL	**10**
POLISÏAU DERBYN YSGOLION CYNRADD CYMORTHEDIG	**10**
POLISI DERBYN YSGOL GYNRADD GYMORTHEDIG LLANWENOG	**10**
POLISI DERBYN YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT	**11-13**
TREFNIADAU YSGOLION	**14**
COFNODION	**15**
GWYBODAETH FYDD EI HANGEN AR YR YSGOLION	**15**
GWYLIAU YN YSTOD ADEG TYMOR	**17**
CODI TÂL AR ADDYSG	**17**
CYRFF LLYWODRAETHOL YR YSGOLION	**18**
SUT Y CAIFF YSGOLION EU TREFNU A'R HYN A DDYSGIR I'R DISGYBLION – Y CWRICWLWM	**19**
ADDYSG GYNRADD	**20**
ADDYSG UWCHRADD	**21**
PROFION AC ARHOLIADAU	**22**
CREFYDD	**23**

Cynnwys (parhad)

	TUD
CWYNION YNGLŶN Â'R CWRICWLWM	**23**
IAITH Y DYSGU	**23**
CATEGORI YSGOLION GYNRADD	**24**
CATEGORI YSGOLION UWCHRADD	**25**
ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA) A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT	**26**
ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA)	**26**
DARPARIAETHAU ERAILL	**27**
SWYDDOGION CYNHWYSIANT ADDYSG	**28**
DIOGELU PLANT	**29**
GWASANAETHAU I DDISGYBLION	**30**
PRYDAU A LLAETH YSGOL	**30**
GRANTIAU GWISG YSGOL A CHYNHALIAETH	**31**
Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOLION YNG NGHEREDIGION	**32**
CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG	**33-34**
Y GWASANAETH ADDYSG GYMUNEDOL	**35**
GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD CEREDIGION	**35**
CYNGOR GYRFAOEDD	**35**
RHESTR YSGOLION	**37 - 49**

CYFLWYNIAD

Fel rhiant, mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod eich plentyn yn derbyn addysg addas rhwng 5 ac 16 oed. Mae rhieni mwyafrif llethol y disgyblion yng Ngheredigion wedi penderfynu bod eu plant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Lleol Ceredigion.

Rydych am y gorau ar gyfer eich plentyn, felly achubwch bob cyfle i ddysgu cymaint â phosibl ynglŷn â'r hyn a gynigir gan y Gwasanaethau Dysgu ac yn fwyaf arbennig, gwnewch yn siŵr eich bod yn darganfod cymaint â phosibl ynglŷn â'r ysgol y dymunwch i'ch plentyn ei mynychu. Bydd llywodraethwyr a staff yr ysgol yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch cynorthwyo i ddatblygu potensial eich plentyn. Maent hwythau hefyd am i'ch plentyn dderbyn yr hyn sydd orau iddo/i.

Mae'r llyfryn hwn yn anelu at ddarparu rhieni/gwarcheidwaid ac eraill â gwybodaeth gyffredinol am addysg gynradd ac uwchradd yng Ngheredigion. Mae'r llyfryn yn cynnwys y manylion sylfaenol ynglŷn â'r ffordd y derbynnir disgyblion i ysgolion a rhai o'r polisïau a'r gefnogaeth a gynigir gan yr Awdurdod Lleol.

Bydd gan bob ysgol ar y rhestr hon lawlyfr ysgol ei hun a fydd yn disgrifio'n fanwl yr ysgol, ei nodau a'i threfnyddiaeth. Os oes gennych ddiddordeb i ddysgu mwy am ysgol benodol, yna gofynnwch i Brifathro/Brifathrawes yr Ysgol am gopi o'u Llawlyfr.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y llyfryn hwn yn cyfeirio at ddechrau'r flwyddyn ysgol ym Medi 2017 ac mae'n gywir ar adeg ei gyhoeddi.

Amlinelliad Cryno

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod pob plentyn 5-16 oed yn derbyn addysg gymwys lawn amser. Mae tua 9,500 o blant yn mynychu ysgolion yr Awdurdod.

Mae Awdurdod Lleol Ceredigion yn cynnal 41 o ysgolion cynradd. Mae tua 35% o ysgolion cynradd yr Awdurdod â 50 neu lai o blant. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Ar lefel uwchradd, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo 4 ysgol gyfun sy'n amrywio o ran maint o 550 i 1300 o ddisgyblion. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal un ysgol 3-16 a dwy ysgol 3-19 sydd yn darparu addysg i ddisgyblion o dair oed i un deg chwech a un deg naw oed.

Mae gan yr Awdurdod amrywiaeth eang o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysg arbennig, gan gynnwys unedau ymddygiad a chanolfannau adnoddau arbennigol, sydd ynghlwm wrth ysgolion y brif ffrwd mewn rhai achosion. Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn, mae nifer o staff arbenigol yn cynorthwyo i sicrhau bod plant ag anghenion arbennig yn cael eu haddysgu, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ysgolion y brif ffrwd.

Nid oes gan yr Awdurdod gyfrifoldeb mwyach am Golegau Addysg Bellach. Un Coleg o'r fath sydd yn y Sir sef Coleg Ceredigion.

Sail Gwasanaethau Dysgu Ceredigion yw'r athroniaeth o gynnig cyfleoedd dysgu gydol oes i bob aelod o'r gymuned. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid rydym yn ceisio darparu gweithgareddau ieuenctid, addysg oedolion, sgiliau sylfaenol i oedolion, cyfleoedd i ddysgu'r iaith Gymraeg, hyfforddiant a nifer o brosiectau datblygu cymunedol. Rydym yn credu bod y cyfleoedd hyn yn cyfrannu at ddatblygiad yr unigolyn ac at lunio cymdeithas gynhwysol mewn Ceredigion ddwyieithog.

Mae'r Awdurdod Lleol, nid yn unig yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth, ond hefyd yn darparu pob math o wasanaethau cysylltiol megis cludiant ysgol, chiniawau ysgol, glanhau, hyfforddiant, adeiladau, datblygiad, cyngor addysgol a chefnogaeth i lywodraethwyr. Er na fydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol, bydd yr Awdurdod yn parhau i gefnogi cyngor gyrfaoedd drwy'r Gwasanaethau Dysgu. Ffurfiwyd Gyrfaoedd Cymru fel gwasanaeth annibynnol sy'n cynnig cyfarwyddyd ynglŷn â gyrfaoedd yng Ngheredigion.

Mae'r Gwasanaethau Dysgu yn cyflogi tua 2,000 o bobl, a dyma gwasanaeth fwyaf yr Awdurdod Lleol gyda chyllideb flynyddol o £59 miliwn ym 2016/2017. Lleolir pencadlys y Gwasanaethau Dysgu yn **Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE** ac mae'n darparu man cyswllt i rieni, disgyblion, aelodau etholedig, staff a'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ogystal â'r cyngor a ddarperir gan y Gwasanaethau Dysgu ynglŷn â'r hyn a nodwyd uchod, lleolir nifer o asiantaethau cefnogol yno hefyd, megis ymgynghorwyr, seicolegwyr addysg a swyddogion cynhwysiant.

GWYBODAETH BELLACH

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Anogir rhieni i gysylltu ag ysgolion, siarad â phrifathrawon ac i ddarllen y llawlyfr ysgol sydd ar gael gan yr ysgol. Os oes angen gwybodaeth neu gymorth pellach arnoch, bydd staff y Gwasanaethau Dysgu yn barod i'ch helpu lle bynnag y bo modd.

Dylid cyfeirio ymholiadau yn ymwneud ag Addysg Gynradd ac Uwchradd at y **Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE Rhif Ffôn: 01970 633601.**
E-bost : addysg@ceredigion.gov.uk Gwefan: www.ceredigion.gov.uk

Gofynnir i rieni fynegi eu dewis o ysgol(ion) cyn i le mewn ysgol gael ei glustnodi gan y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau.

Anghenion Addysg Arbennig
01970 633693
sen@ceredigion.gov.uk

Cefnogaeth Llywodraethwyr
01970 633676
governors@ceredigion.gov.uk

Cinio am Ddim
01970 633650
decsdata@ceredigion.gov.uk

Cymraeg yn Ysgolion Ceredigion
01970 633656
addysg@ceredigion.gov.uk

Cynllunio'r Ddarpariaeth Addysg
01970 633364
addysg@ceredigion.gov.uk

Derbyn i Ysgol
01970 633672
cheryl.evans@ceredigion.gov.uk

Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg
01970 633619
stuart.bradley@ceredigion.gov.uk

Gwasanaeth Cerdd Ceredigion
01970 633614
gwasanaeth.cerdd@ceredigion.gov.uk

Prydau Ysgol
01970 633679
gill.jones2@ceredigion.gov.uk

Trafnidiaeth
01970 633555
hpw@ceredigion.gov.uk

CYFRIFOLDEBAU RHIEINIOL

A oes rhaid i fy mhlentyn dderbyn addysg lawn amser?

Oes. Yn ôl y ddeddf mae'n rhaid i rieni sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg amser llawn o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed nes iddo/iddi gyrraedd oed gadael yr ysgol yn 16. Gellir dwyn y rhieni gerbron llys barn os na fyddant yn cwrdd â gofynion y ddeddf yn y mater hwn.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod pob plentyn 5-16 oed yn derbyn addysg lawn amser a phriodol.

Pwy sydd â chyfrifoldebau rhieiniol am y plentyn?

Dylech fod yn ymwybodol, yn dilyn newidiadau yn y gyfraith yn ymwneud â phlant a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989 ac a ddaeth i rym ym mis Hydref 1991, bod angen i ysgolion wybod pwy sydd â "chyfrifoldeb rhieiniol" am bob plentyn. Diben hyn yw sicrhau bod yr awdurdod priodol yn cael ei roi pan fydd angen caniatâd rhiant ar yr ysgol. Bydd hefyd yn sicrhau bod personau sydd â chyfrifoldeb rhieiniol ond sydd heb fod yn byw gyda'r plentyn yn derbyn adroddiadau ysgol ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn. Bu newidiadau pellach yn y gyfraith yn 2003.

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhieiniol bob amser (heblaw bod Gorchymyn Llys mewn lle sy'n datgan na fydd hi bellach yn gyfrifol). e.e. mewn achos mabwysiadu.
- Mae gan dadau a oedd yn briod i'r fam cyn 2003 gyfrifoldeb rhieiniol.
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhieiniol am blentyn hefyd os cafodd y plentyn ei eni ar ôl 2003 ac os yw ei enw ar dystysgrif geni'r plentyn.
- Gall tadau di-briod, llys rieni, perthnasau a phersonau eraill dderbyn cyfrifoldeb rhieiniol ond ni fyddant yn ei gael yn awtomatig.

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol trwy ddarparu manylion ar gyfer yr ysgol am y personau sydd â'r cyfrifoldeb rhieiniol am ddisgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau yn y trefniadau a wnaed ar gyfer cyfrifoldeb rhieiniol neu ar gyfer gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd.

Mae unrhyw gyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn yn ymestyn i gynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion.

MYNEDIAD DISGYBLION I YSGOLION

MATHAU O YSGOLION

Beth yw'r gwahanol fathau o ysgolion yng Ngheredigion?

Mae rhan fwyaf o ysgolion Ceredigion yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ceredigion trwy gyfrwng yr Awdurdod Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys 41 ysgol gynradd, 1 ysgol 3-16, 2 ysgol 3-19 a 4 ysgol uwchradd. Ymhlith y rhain, ceir dwy ysgol gynradd wirfoddol gymorthedig o fewn y Sir sef, Ysgol Gatholig Padarn Sant, Aberystwyth (Yr Eglwys Babyddol), ac Ysgol Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog (Yr Eglwys yng Nghymru). Dylid gwneud ymholiadau derbyn gogyfer a'r ddwy ysgol yma i'w Cyrff Llywodraethol. Mae manylion cyswllt bob ysgol wedi'i gynnwys ar ddiwedd y llyfryn hwn.

YSGOLION EGLWYS

Dylid gwneud ymholiadau cyffredinol am Ysgolion Eglwys i'r canlynol:-

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Bryan Witt
Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth
Y Ficerdy,
Llanddarog,
Caerfyrddin,
SA32 8PA

Ffôn: 01267 275 504

Ysgolion Catholig
Mr. Patrick Mansfield
Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth
27 Convent Street
Greenhill
Abertawe,
SA1 2BX

Ffôn: (01792) 659 285

DEWIS YSGOL

Sut ydw i'n dewis ysgol ar gyfer fy mhlentyn?

O fewn Ceredigion mae mwyafrif y rhieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol, fodd bynnag, gall rhieni fynegi eu ffafriaeth tuag at ysgol arall. Dylai rhieni ddarllen llawlyfr yr ysgol neu wneud trefniadau gyda'r Prifathro/Prifathrawon i gael ymweld â'r ysgol(ion) cyn mynegi ffafriaeth.

Gall rhieni fynegi ffafriaeth:

- pan fydd eu plentyn yn dechrau'r ysgol yn y Cyfnod Sylfaen;
- pan fydd eu plentyn yn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd;
- neu ar unrhyw adeg yn ystod gyrfa ysgol y plentyn.

Dylai rhieni fynegi ffafriaeth tuag at fwy nag un ysgol, os methir â gwneud hynny, gallai olygu y neilltuir lle i'ch plentyn mewn ysgol heblaw'r un a ffafriwyd gennych.

A oes rhaid i'r Awdurdod ddarparu lle ar gyfer pob plentyn sy'n dymuno mynychu rhyw ysgol arbennig?

Nac oes. Rhaid i'r Awdurdod Derbyniadau fodloni'r blaenoriaeth os oes modd, ond bydd rhai ffactorau arbennig yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhif derbyn yr ysgol
- defnydd effeithlon ar adnoddau ac adeiladau
- cymeriad ysgol (crefyddol fel rheol)

Mae'n bosibl na fydd rhieni yn llwyddo i gael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol. Felly, mae'n bwysig deall mai dim ond oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael y gall yr Awdurdod roi mynediad i ddisgyblion.

A yw'r ysgol yn dewis ei disgyblion?

Nac ydy. Ni chaniateir i'r un ysgol ddewis disgyblion.

Pwy sy'n rheoli derbyniadau i ysgolion?

Mae derbyn plant i ysgolion yn cael ei reoli gan "Awdurdod Derbyniadau". Yn achos ysgolion cymunedol yng Ngheredigion, yr Awdurdod Derbyniadau yw Cyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdod Lleol neu ALl). Yn achos Ysgol Wirfoddol Gymorthedig, yr Awdurdod Derbyniadau yw Corff Llywodraethol yr ysgol (Ysgolion cynradd Llanwenog a Phadarn Sant). Gweler Polisïau Derbyn Ysgolion Gwirfoddol ar ddiwedd y llyfryn.

A oes terfyn ar nifer y disgyblion y gall ysgolion eu derbyn?

Oes. Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion hyd at y rhif derbyn a gyhoeddwyd ganddynt.

Pan fydd ceisiadau yn fwy na'r rhif derbyn yr ysgol, bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio a bydd disgyblion yn cael eu derbyn hyd at yr rhif derbyn.

Meini Prawf Gordanysgrifio

Pan fydd mwy o blant am fynychu ysgol benodol nag sydd yna o leoedd, yna cymerir y meini prawf gordanysgrifio a ganlyn i ystyriaeth – yn nhrefn blaenoriaeth:-

- plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal;
- yr ysgol a ffafriwyd yw'r ysgol addas agosaf ac mi fydd brawd neu chwaer* gan y plentyn yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu:
- yr ysgol a ffafriwyd yw'r ysgol addas agosaf;
- plant lle nad yw'r ysgol yn ysgol addas agosaf ond mi fydd brawd neu chwaer* gan y plentyn yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

(*Mae hanner brodyr a hanner chwiorydd, llysfrodyr a llyschwiorydd a phlant mabwysiedig a maeth sy'n byw yn yr un tŷ yn cyfrif fel brodyr neu chwiorydd.)

Pan fydd mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod ymgeiswyr yn parhau, yna derbynnir y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol. **Mesurir pob pellter yn ôl y pellter cerdded byrraf rhwng prif gât yr ysgol a'r man lle cwrdd aneddle'r plentyn â'r briffordd gyhoeddus.**

Mae'r ALI yn defnyddio Google Maps i fesur pob pellter.

Noder os gwelwch yn dda bod y meini prawf gordanysgrifio uchod yn berthnasol i geisiadau am addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd.

GWRTHODIAD AC APÊL

Beth os caiff fy nghais ei wrthod?

Os gwrthodir eich cais yna gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Panel Apêl Annibynnol i ystyried apeliadau rhieni pan wrthodir eu cais am ysgol a dderbyniodd eu ffafriaeth. Fel rheol, cynhelir Paneli Apêl yn y dirgel ond caiff rhieni y cyfle i gyflwyno'u hachos naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth eu cynrychiolydd dewisedig.

D.S. Nid oes apêl yn erbyn darpariaeth addysg feithrin anstatudol.

A allaf roi fy mhlentyn ar restr aros?

Gallwch. Oni bydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol a ffafriwyd yn ystod y rownd dderbyn arferol cedwir ei (h)enw ar restr aros tan yr 30ain o Fedi yn yr flwyddyn academaidd berthnasol. Rhoddir blaenoriaeth am leoedd yn ôl y meini prawf cynt ac nid yn ôl y dyddiad pryd y cyflwynwyd cais am le yn wreiddiol.

Efeilliaid a Genedigaethau Lluosog eraill.

Os yw'r lle terfynol â ddyranwyd hyd y rhif derbyn yn un o enedigaethau luosog, yna bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion).

Mae teuluoedd pobl sydd yn Lluoedd y DU a Gweision eraill y Goron yn cael eu symud o gwmpas y DU ac o dramor yn aml, a hynny'n aml ar fyr rybudd.

O ganlyniad, ystyrir ceisiadau am leoedd Ysgol ar gyfer y flwyddyn Ysgol sydd i ddod os cânt eu cyflwyno ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd. Fe ddyrennir lleoedd Ysgol ymlaen llaw os bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf pan fydd yn symud i'w leoliad newydd.

Derbynnir hefyd gyfeiriadau post uned gan bersonél y lluoedd arfog os na fydd cyfeiriad cartref newydd ar gael.

DERBYN I YSGOL

Amserlen Derbyniadau

Math o Ddarpariaeth	Dyddiad cau	Danfon llythyr penderfyniad
Meithrin	31 Ionawr 2017	17 Ebrill 2017
Cynradd/Derbyn	31 Ionawr 2017	17 Ebrill 2017
Uwchradd	16 Rhagfyr 2016	1 Mawrth 2017

Noder: Mae'n rhaid i rieni wneud cais am le yn yr ysgol/ion yr hoffent ddanfon eu plentyn iddo. Mae'r ffurflenni cais ar gael yn yr ysgolion, oddi wrth y Gwasanaethau Dysgu neu ar y wê www.ceredigion.gov.uk

CEISIADAU HWYR

Mi fydd ceisiadau hwyr, hynny yw ceisiadau a dderbynnir ar ol y dyddiad cau, eu hystyried ar ol y ceisiadau a dderbynnir mewn pryd.

ADDYSG FEITHRIN

A yw hi'n bosibl i fy mhlentyn 3 blwydd oed dderbyn addysg feithrin?

Mae'r Awdurdod Lleol o dan ddyletswydd i ddarparu lleoedd meithrin rhan amser am ddim i bob plentyn yn ardal yr Awdurdod Lleol yn y tymor ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn dair oed. Bydd hwn ar gael mewn dosbarthiadau meithrin mewn rhai ysgolion cynradd, cylchoedd chwarae lleol a meithrinfeydd dydd sy'n cwrdd a'r meini prawf a osodwyd gan Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ceredigion. Gofynnwch i'ch cylch meithrin lleol/meithrinfa dydd am fanylion pellach.

Erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid i fy mhlentyn gyrraedd yr oedran cywir cyn cael mynd i'r ysgol ac erbyn pryd y mae'n rhaid imi wneud cais?

Math o Ddarpariaeth	Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Tymor ar gyfer Derbyn
Meithrin	3	31 Rhagfyr 2017 31 Mawrth 2018 31 Awst 2018	Gwanwyn 2018 Haf 2018 Hydref 2018

YMUNO Â DOSBARTH DERBYN MEWN YSGOL GYDA DOSBARTH MEITHRIN

A oes rhaid imi wneud cais i drosglwyddo fy mhlentyn o Ddosbarth neu Uned Feithrin i Ddosbarth Derbyn o fewn yr un ysgol?

Oes. Nid yw bod yn ddisgybl mewn dosbarth meithrin neu uned feithrin yn rhoi hawl awtomatig i'ch plentyn gael mynediad i ddosbarth derbyn o fewn yr un ysgol. Danfonir ffurflenni allan i rieni gyda'u llythyr penderfyniad i'r meithrin, ond maent hefyd ar gael o'r ysgol.

YMUNO Â YSGOL GYNRADD/DOSBARTH DERBYN

Pryd gallaf i gyflwyno cais am le i fy mhlentyn mewn Ysgol Gynradd?

Pan nad oes unrhyw ddosbarth neu uned feithrin ar gael, gellir derbyn plentyn y tymor ar ôl iddo/iddi gyrraedd 4 blwydd oed.

Erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid i fy mhlentyn gyrraedd yr oed cywir cyn cael mynd i'r ysgol ac erbyn pryd y mae'n rhaid imi wneud cais?

Math o Ddarpariaeth	Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Tymor ar gyfer Derbyn
Cynradd / Derbyn	4	31 Rhagfyr 2017 31 Mawrth 2018 31 Awst 2018	Gwanwyn 2018 Haf 2018 Hydref 2018

Mynediad wedi'i Ohirio

Caiff rhieni geisio am le mewn ysgol i blentyn nad yw wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol, a chaiff yr awdurdod derbyn gytuno, ar gais y rhiant, i'r plentyn ohirio mynediad i'r dosbarth derbyn hyd nes ei f/bod wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol (5 oed). Effaith hyn yw bod y lle'n cael ei gadw i'r plentyn hwnnw ac nad yw ar gael i blentyn arall. Rhaid i geisiadau am fynediad gohiriedig gael eu cyflwyno erbyn yr un dyddiad cau â cheisiadau nad ydynt yn ohiriedig. Os byddwch yn oedi'ch cais hyd nes bod eich plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol, efallai y bydd eich ysgol ddewisol eisoes yn llawn.

Maint Dosbarth Babanod

Mae'r cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau'n golygu, pan fydd un athro/athrawes ysgol yn bresennol, na chaiff dosbarthiadau babanod (blwyddyn derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion.

Caiff yr awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol petai gwneud hynny'n anfanteisiol o ran maint y dosbarth, hynny yw, y byddai'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon oherwydd y byddai angen cymryd camau perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod.

YMUNO AG YSGOL UWCHRADD

Pryd dylai fy mhlentyn ddechrau yn yr ysgol uwchradd?

Fel rheol, bydd disgyblion yn trosglwyddo i ysgol uwchradd yn 11 oed. Bydd disgyblion sy'n cyrraedd 11 oed erbyn Awst 31ain yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol h.y. Medi'r 1af.

Faint o ysgolion uwchradd sydd yn y sir?

Mae 4 o ysgolion uwchradd, un ysgol 3-16 a dwy ysgol 3-19 yng Ngheredigion.

Erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid i fy mhlentyn gyrraedd yr oedran cywir cyn cael mynd i'r ysgol ac erbyn pryd y mae'n rhaid imi wneud cais?

Math o Ddarpariaeth	Oed	Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol	Danfon Pecyn Trosglwyddo	Dyddiad Cau	Danfon Llythyr Penderfyniad	Tymor ar gyfer Derbyn
Uwchradd	11	31 Awst 2017	4 Tachwedd 2016	16 Rhagfyr 2016	1 Mawrth 2017	Medi 2017

Noder: Pe bai eich cais am ysgol wahanol i'r un a ffafriwyd yn cael ei ganiatáu mae angen i chi fod yn ymwybodol mai **y chi fel rhiant fydd yn gyfrifol am y trefniadau cludo ac am y costau cludo i ac o'r ysgol honno.**

DYDDIAD GADAEL YSGOL

Pryd caniateir i ddisgyblion adael ysgol?

Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed yn ystod blwyddyn ysgol, gall ef/hi adael ysgol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin.

POLISÏAU DERBYN YSGOLION CYNRADD CYMORTHEDIG

POLISI DERBYN YSGOL GYNRADD GYMORTHEDIG LLANWENOG

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol. Y rhif derbyn sy'n penderfynu nifer y disgyblion y gellid eu derbyn bob blwyddyn a chaiff y rhif hwnnw ei adolygu'n flynyddol gan yr Awdurdod Lleol a'r Corff Llywodraethol mewn ymgynghoriad â Chyngor Addysg yr Esgobaeth. Y rhif derbyn presennol yw **7**. Capasiti swyddogol yr ysgol yw **51**.

Mae'r Llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau oddi wrth rieni plant sydd yn aelodau o'r Eglwys yng Nghymru yn ogystal â phlant o enwadau eraill sydd yn cefnogi ethos Gristnogol a thraddodiadau'r ysgol.

Y meini prawf presennol gogyfer â derbyniadau yw: -

1. Disgybl sy'n derbyn gofal.
2. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol yn barod.
3. Plant sydd ag Ysgol Gynradd Llanwenog fel eu hysgol addas agosaf.
4. Plant sydd wedi eu bedyddio yn yr Eglwys yng Nghymru.
5. Plant gyda rhieni o enwadau eraill a fydd yn barod i rannu ethos Gristnogol yr ysgol.
6. Achosion eithriadol sydd wedi'u cyfeirio at yr Awdurdod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Swyddog Meddygol perthnasol lle bo derbyn i ysgol benodol yn angenrheidiol er lles meddygol neu gymdeithasol y plentyn. Mewn achosion o'r fath, bydd angen derbyn llythyr oddi wrth weithiwr iechyd proffesiynol megis meddyg neu weithiwr cymdeithasol, sy'n darparu tystiolaeth gefnogol er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i'r achos.

Apeliadau

Os gwrthodir unrhyw gais, yna mae'r hawl gan rieni i apelio. Y drefn swyddogol i wneud apêl yw fel a ganlyn:-

Yn gyntaf dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn gofyn am ail ystyriaeth. Os bydd hyn yn aflwyddiannus dylai rhieni wneud cais trwy'r Cadeirydd i'r Pwyllgor Apêl.

Fe fydd penderfyniad y Pwyllgor yn rhwymedig ar y Llywodraethwyr. Serch hynny, mae yna gamau pellach ar gael i rieni eu dilyn os dymunant.

POLISI DERBYN YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT

Mae Padarn Sant yn Ysgol Gynradd Gatholig wedi'i lleoli yn Esgobaeth Mynyw ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Ceredigion. Mae ethos yr ysgol yn Gatholig. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant o deuluoedd Catholig. Rydym yn gofyn i bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma i gefnogi a pharchu'r ethos, ei phwysigrwydd i gymuned yr Ysgol a'r addysg a ddarparwyd ganddi.

a) Mae derbyn plant i'r ysgol yn cael ei reoli gan yr 'Awdurdod Derbyn'. Yn achos Ysgol Padarn Sant, corff llywodraethol yr ysgol yw'r Awdurdod Derbyn. Maent yn gyfrifol am benderfynu a gweinyddu'r polisi sy'n ymwneud a derbyn disgyblion i'r Ysgol. Fe'i harweinir gyda'r cyfrifoldeb hwnnw gan:

- ofynion y gyfraith.
- gyngor oddi wrth Ymddiriedolwyr yr Esgobaeth ar natur a phwrpas eu dyletswyddau ac wrth gyflawni ei Gweithred Ymddiriedolaeth a Offeryn Llywodraethu.
- ei dyletswydd tuag at yr Ysgol a'r gymdeithas Gatholig y mae'n ei gwasanaethu.
- gymeriad Catholig yr Ysgol a'i Datganiad Cenhadaeth.

b) Gall rhieni fynegi eu dewis o ysgol, a rhaid i'r Awdurdod Derbyn gwrdd â'r dymuniadau hynny oni bai iddynt fod yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithiol a'r defnydd effeithiol o adnoddau. Os oes lle ac adnoddau ar gael yn yr ysgol, yna fe ddarperir lle. Dylai pob darpar riant fynegi ei dewis yn ysgrifenedig – ceir ffurflenni derbyn ysgol yn mhrosbectws yr Ysgol ac mae ffurflenni derbyn Ceredigion yn cael eu danfon gyda'r prosbectws.

Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni yn ysgrifenedig ynghylch canlyniad eu cais am dderbyniad.

c) Dyrennir lleoedd hyd at rif derbyn yr ysgol. Fodd bynnag, os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r rhif derbyn, bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i ddyrannu lleoedd gan gofio ein bod yn Ysgol Gatholig a bod gennym rwymedigaeth i ddarparu addysg Gatholig i blant a fedyddiwyd yn Gatholigion, felly bydd plant Catholig yn cael yr hawl cyntaf i gael eu derbyn pob amser. Fodd bynnag, rhaid i bob plentyn wneud cais am le drwy'r Pwyllgor Derbyn, sef un o is-bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr.

Meini Prawf Gordanysgrifio

Lle mae nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth.

1 . Plant Catholig a fedyddiwyd sy'n 'Derbyn Gofal' neu a oedd yn arfer 'Derbyn Gofal' sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, o fewn y plwyfi a wasanaethir gan yr ysgol.

2 . Plant Catholig a fedyddiwyd o fewn y plwyf a wasanaethir gan yr ysgol.

3 . Plant Catholig arall sydd wedi'u bedyddio.

4 . Plant sy'n 'Derbyn Gofal' neu a oedd yn arfer 'Derbyn Gofal' sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant mewn gofal) neu sy'n cael llety ganddynt (e.e. plant gyda rhieni maeth).

5 . Plant sydd â brawd neu chwaer* yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

6 . Plant o Enwadau Cristnogol eraill.

7 . Plant nad ydynt yn Gatholigion sydd â brawd neu chwaer* yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

8 . Plant o ffydd eraill lle mae eu rhieni am addysg Gatholig iddynt.

9 . Plant nad ydynt yn Gatholigion lle mae eu rhieni am addysg Gatholig iddynt.

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd Cristnogol gynhyrchu tystysgrif bedydd.

(*Mae brodyr a chwiorydd yn cynnwys hanner brodyr, hanner chwiorydd, llysfrodyr, llyschwiorydd a phlant mabwysiedig a maeth sy'n byw yn barhaol yn yr un cartref)

Pan fydd mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod ymgeiswyr yn parhau, yna derbynnir y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir y pellter gan y pellter byrraf wrth gerdded rhwng brif gât yr ysgol a'r pwynt lle mae cartref y plentyn yn cwrdd â'r ffordd gyhoeddus.

Pe na all yr ysgol gynnig lle i blentyn yn ystod y rownd derbyn arferol, yna fe gedwir ei h/enw ar y rhestr aros hyd 30 Medi.

Rhoddir blaenoriaeth yn ôl y meini prawf uchod ac nid yn ôl y dyddiad y gwnaed y cais am le yn wreiddiol. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried ar ôl y ceisiadau a gyflwynir ar amser.

Fe dderbynnir plant o dramor i ysgol lle gellir, yn rhesymol, wneud y ddarpariaeth addas ar eu cyfer i gwrdd â'u gofynion.

Nid yw'r ysgol yn caniatáu derbyn drwy ddetholiad neu fandio nac ar sail cyfweliad gyda rhieni na chyfraniad ariannol at yr ysgol.

Rhif Derbyn a Chapasiti

Caiff y rhifau derbyn eu cyfrif ar sail fformiwla Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r lleoedd sydd ar gael gan yr ysgol. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyniadau i'r ysgol. Pennir y nifer o ddisgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol gan y rhif derbyn sy'n rhif a adolygir yn flynyddol gan yr ALl a chan y Corff Llywodraethol mewn ymgynghoriad â Chyngor yr Esgobaeth am Addysg. Ar hyn o bryd **19** yw'r rhif derbyn. Capasiti swyddogol yr ysgol yw **134** o ddisgyblion.

Y Dyddiad Cau am Dderbyn Ceisiadau Derbyn Cynradd

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am dderbyniad i ysgolion cynradd ym mis Ionawr, Ebrill neu Fedi, 2018 yw **31 Ionawr 2017.** Bydd derbyn i'r ysgol yn digwydd bob tymor. Caiff y ceisiadau am dderbyn i'r Ysgol eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau.
Os ceir gordanysgrifio, yna fe ddefnyddir y meini prawf a ddangoswyd yn gynharach.

Ceisiadau Cynnar a Hwyr

Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau ar sail trefn y dyddiad a ddaw i law. Caiff ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried ar ôl y ceisiadau a gyflwynwyd mewn pryd.

Derbyn ar Adegau Gwahanol

Ystyrir derbyniadau i ysgolion y tu allan i'r cylch arferol, e.e. plant sy'n symud i mewn i'r Sir, yn yr un modd ag yr ystyrir y rhai sy'n gwneud cais am dderbyniad ar yr amser arferol.

Mynediad Gohiriedig

Gall rhieni wneud cais am le yn yr ysgol ar gyfer plentyn nad yw o'r oedran ysgol gorfodol (15 mlwydd oed), a gall yr awdurdod gytuno, ar gais y rhiant, i ohirio derbyn y plentyn i'r dosbarth derbyn hyd nes ei f/bod wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Effaith hyn yw y cedwir y lle i'r plentyn hwnnw ac ni fydd ar gael i blentyn arall.

Y Drefn Apelio

Petai rhieni'n aflwyddiannus wrth geisio am le i'w plentyn yn yr ysgol, cânt eu hysbysu drwy lythyr o'r rheswm/rhesymau na chafwyd lle, ac o'u hawl am apêl annibynnol.
Rhaid gwneud unrhyw apêl yn erbyn peidio derbyn plentyn i'r ysgol yn ysgrifenedig ac o fewn deng niwrnod o'r dyddiad yr hysbyswyd y bu'r cais am le yn aflwyddiannus. Dylid cyfeirio'r llythyr apêl at Gadeirydd y Llywodraethwyr, d/o Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1EZ.

Nodiadau

- Rhaid i blant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol gael eu derbyn. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr.
- Ym mhob categori, er mwyn i blentyn gael ei ystyried fel Catholig bydd angen tystiolaeth o Fedydd Catholig neu Dderbyn i'r Eglwys. Dylai'r rhai sy'n wynebu anawsterau wrth gynhyrchu'r dystiolaeth ysgrifenedig o Fedydd/Derbynfa Gatholig gysylltu â'i Offeiriad Plwyf. Petai rhiant yn methu â darparu tystiolaeth o Fedydd/Derbynfa Gatholig, gall hyn effeithio ar ba faen prawf bydd y plentyn yn cael ei osod ynddo.
- Mesurir pob pellter yn ôl y pellter cerdded byrraf rhwng prif gât yr ysgol a'r man lle cwrdd aneddle'r plentyn â'r briffordd gyhoeddus. Mae'r ALl yn defnyddio 'Google Maps' i fesur pob pellter.
- Mewn nifer fach iawn o achosion, efallai na fydd yn bosib penderfynu rhwng yr ymgeiswyr y disgyblion hynny sydd yn gymwys am le, wrth ddefnyddio'r meini prawf derbyn a gyhoeddwyd. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd pan fydd plant yn yr un grŵp blwyddyn yn byw yn yr un cyfeiriad, neu os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn union yr un fath, er enghraifft, blociau o fflatiau, neu lle mae genedigaethau lluosog. Pan fydd yr ALl yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, bydd y teulu'n cael cynnig y lle a gallant benderfynu :
    1 . os byddant yn ei dderbyn ar gyfer un plentyn pwy bynnag y penderfynant; neu
    2 . gwrthod y lle a'i gynnig i'r unigolyn nesaf yn y dyraniad ar ôl y gefeilliaid/ tripledi/genedigaethau lluosog.

Ni fyddai'r plentyn (plant) genedigaeth luosog yn cael blaenoriaeth ar dderbyn heblaw cael eu hystyried fel cyswllt brawd neu chwaer unwaith bydd y teulu wedi derbyn y lle(oedd) a gynigiwyd ar gyfer un o'r gefeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog.

- Bydd cyfeiriad cartref y disgybl yn cael ei ystyried fel preswylfa parhaol y plentyn. Rhaid i'r cyfeiriad fod yn unig neu brif breswylfa'r plentyn ar gyfer y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Efallai y bydd angen tystiolaeth ddogfennol.
- Lle mae gofal yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y fam a'r tad, rhaid i rieni enwi pa gyfeiriad sydd yn cael ei ddefnyddio at ddiben dyrannu lle mewn ysgol a gellir gofyn am brawf.
- Nid yw cael derbyniad i Gylch Chwarae Padarn Sant yn sicrhau mynediad i'r Ysgol Gynradd. Mae'r Cylch Chwarae yn gorff annibynnol ac, er bod llawer o'r plant sy'n mynychu'r cylch yna'n mynychu'r ysgol, **nid yw'n gwarantu** lle yn yr ysgol.

TREFNIADAU YSGOLION

Beth am dymhorau ysgol?

Mae'r flwyddyn ysgol yn rhedeg o 1 Medi o un flwyddyn i 31 Awst y flwyddyn ganlynol ac mae'n cynnwys tri thymor. Er bod dyddiadau dechrau a gorffen y tymhorau ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn fras, maent fel a ganlyn:

Tymor yr Hydref - Medi i Ragfyr
Tymor y Gwanwyn - Ionawr i Fawrth/Ebrill (gan ddibynnu ar bryd y dethlir y Pasg)
Tymor yr Haf - Ebrill i Orffennaf

Rhennir pob tymor yn ddau gan wythnos o wyliau hanner tymor. Fel arfer, fe'u cynhelir yn Hydref, Chwefror a Mai/Mehefin.

Blwyddyn Ysgol 2017/2018

TYMOR	DECHRAU	HANNER TYMOR		DIWEDD	NIFER Y DIWRNODAU YSGOL
		DECHRAU	DIWEDD		
Hydref 2017	Mawrth 5 Medi, 2017	Llun 30 Hydref, 2017	Gwener 3 Tachwedd, 2017	Gwener 22 Rhagfyr, 2017	**74**
Gwanwyn 2018	Llun 8 Ionawr, 2018	Llun 19 Chwefror, 2018	Gwener 23 Chwefror, 2018	Iau 29 Mawrth, 2018	**54**
Haf 2018	Mawrth 17 Ebrill, 2018	Llun 28 Mai, 2018	Gwener 1 Mehefin, 2018	Mawrth 24 Gorffennaf, 2018	**65**
				CYFANSWM	**193**

Gall y dyddiadiau hyn newid.

i) Caiff **Dydd Llun 4 Medi 2017 a Dydd Llun 16 Ebrill 2018** eu dynodi fel diwrnodau HMS ar gyfer pob Ysgol Gynaledig. Yr ysgol unigol fydd yn pennu'r 3 diwrnod HMS arall.

ii) Bydd yr holl ysgolion yn cau ar **Ddydd Llun, 7 Mai 2018** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

Mae gwybodaeth bellach ar y flwyddyn ysgol i gael ar www.ceredigion.gov.uk

COFNODION

A oes cofnodion yn cael eu cadw am fy mhlentyn?

Oes. Mae pob ysgol a'r Awdurdod yn cadw cofnodion am bob plentyn yn yr ysgol. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth bersonol megis cyfeiriadau, enwau'r rhieni, y meddyg teulu, a lle i gysylltu pe bai angen. Yn ogystal, mae ysgolion yn cadw cofnodion o gyrhaeddiad disgyblion ym mhob maes o'r cwricwlwm. Byddwch yn derbyn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, yn rhoi gwybodaeth i chi am ddatblygiad cyffredinol eich plentyn a'i gynnydd ym mhob pwnc.

GWYBODAETH FYDD EI HANGEN AR YR YSGOL

Pa wybodaeth fydd yr ysgol eisiau oddi wrthyf fi?

Efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth o ddyddiad geni eich plentyn megis tystysgrif geni neu gerdyn meddygol. Yn ogystal, bydd yr ysgol am gael gwybod pwy sy'n dwyn y cyfrifoldeb rhieniol am y plentyn. Diben hyn yw sicrhau bod yr awdurdod priodol yn cael ei roi petai'r ysgol am gael caniatâd rhieni ar unrhyw adeg e.e. mewn achos brys. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod personau sydd â chyfrifoldeb rhieniol yn derbyn adroddiadau ysgol ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

Yr hyn a wneir â'r wybodaeth bersonol hon.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn defnyddio'r wybodaeth i wneud gwaith ymchwil, a hynny'n bennaf wrth edrych ar newidiadau i bolisïau addysg ac ariannu. Oherwydd y ffordd y caiff yr ymchwil ei chynnal, does dim modd adnabod disgyblion unigol. Cewch weld enghreifftiau o'r mathau o ystadegau a gynyrchir yn www.dysgu.cymru.gov.uk neu www.cymru.gov.uk/statistics

Mae'r **ALl** hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir i wneud gwaith ymchwil. Defnyddir canlyniadau'r ymchwil i wneud penderfyniadau ynghylch polisi ac ariannu ysgolion, i asesu perfformaid ysgolion a'u helpu i osod targedau. Oherwydd y ffordd y caiff yr ymchwil ei chynnal, does dim modd adnabod disgyblion unigol.

Mae'r **Ysgol** yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i ddisgyblion. Er enghraifft;

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd am gynnydd addysgol y disgyblion;
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd;
- rhoi cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

Cyrff a allai rannu gwybodaeth bersonol

Gall yr Ysgol, yr ALl a Llywodraeth Cymru rannu'r wybodaeth a gedwir am ddisgyblion, eu rhieni neu'u gwarcheidwad cyfreithiol gyda chyrff eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, er enghraifft:

- cyrff addysgol a chyrff hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud cais i fynd ar gyrsiau, i gael hyfforddiant, i drosglwyddo ysgol neu pan fydd yn gofyn am gyngor ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n gwneud ymchwil i Llywodraeth Cymru, yr ALl a'r ysgolion, cyn belled ag y cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol;
- llywodraeth ganolog, llywodraeth lleol a consortia addysg at ddiben cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a mudiadau iechyd a lles eraill pan fo angen rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn a chynorthwyo disgyblion unigol;
- gwahanol gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmyn ac awdurdodau arolygu, lle bo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid trosglwyddo'r wybodaeth honno er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith.

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi rhai hawliau i unigolion o ran y wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw gorff. Ymhlith yr hawliau hyn mae:

- yr hawl i ofyn am weld a chael copïau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi, er y gellid weithiau gyfiawnhau atal peth gwybodaeth;
- yr hawl mewn rhai amgylchiadau i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os byddai hynny'n peri niwed neu boendod;
- yr hawl i ofyn am gael gywiro gwybodaeth sy'n anghywir;
- yr hawl i ofyn am iawndal os nad yw corff yn cadw at Ddeddf Diogelu Data 1998 a'ch bod chi'n dioddef niwed;
- mewn rhai achosion bydd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y disgybl hawl i dderbyn copi o ddata personol a gedwir am ddisgybl sy'n gyfreithiol dan eu gofal. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol lle bernir nad oes gan yr unigolyn ddigon o ddealltwriaeth o'i hawliau o dan y Ddeddf.

Mae gennych hawl hefyd i ofyn i'r Comisynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998, asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gadw at y Ddeddf.

GWYLIAU YN YSTOD ADEG TYMOR

A allaf i gymryd fy mhlentyn ar wyliau adeg tymor?

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog peidio a chymryd gwyliau yn ystod y tymor gan ei fod yn amharu ar barhad addysg disgyblion. Nid oes hawl awtomatig gan rieni i gymryd amser i ffwrdd o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol ac ni ddylent ddisgwyl y bydd ysgolion yn cytuno i hyn fel arfer. Mae gan Benaethiaid ddisgresiwn i roi caniatad ac mae'n rhaid i rieni wneud cais am hawl ymlaen llaw. Fodd bynnag bydd ysgolion ond yn cytuno ar absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol os credant fod amgylchiadau arbennig yn gwarantu hynny. Bydd ysgolion ond yn cytuno i absenoldeb o nid mwy na 10 diwrnod mewn blwyddyn ysgol os credant fod amgylchiadau eithriadol.

CODI TÂL AR ADDYSG

A fydd rhaid imi dalu am addysg fy mhlentyn?

Na fydd. Mae ysgolion y wladwriaeth i gyd yn rhad i bob plentyn. Bydd yr ysgol yn darparu'r offer angenrheidiol am ddim, gan gynnwys llyfrau, papur, pinnau ysgrifennu a phensiliau.

Efallai y gofynnir i chi'n achlysurol i wneud cyfraniad gwirfoddol tuag at rai o weithgareddau'r ysgol sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol.

Mae'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a ddaeth i rym o 1 Ebrill, 1989 (ac a ddiwygiwyd mewn Deddfau Addysg dilynol) yn darparu ar gyfer codi tâl am weithgareddau ysgol gyda'r amcanion canlynol:-

- cynnal hawl pob plentyn i gael addysg rad ac am ddim;
- sefydlu bod gweithgareddau a gynigir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod oriau arferol yr ysgol, ar gael i bob plentyn ni waeth beth yw gallu neu barodrwydd y rhieni i helpu i gyfarfod â'r gost;
- pwysleisio nad oes gofynion statudol i godi tâl am unrhyw ffurf o addysg neu weithgaredd perthynol, ond i roi'r hawl i Awdurdodau Lleol ac i ysgolion godi tâl am weithgareddau dewisol a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i oriau ysgol;
- cadarnhau hawl yr Awdurdodau Lleol ac ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol, neu i gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir gan yr ysgol, naill ai yn ystod neu y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r amgylchiadau lle caniateir codi tâl yn cael eu rhannu i bedwar categori, er bod eithriadau ym mhob categori lle na chaniateir codi tâl. Y categorïau hynny yw:-

(i) Gwersi Offerynnol i Unigolion:

Mae Deddf Addysg 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau dilynol) yn caniatáu codi tâl am Wersi Offerynnol mewn sefyllfaoedd penodol. (Rhaid darparu gwersi yn ddi-dâl lle maent yn rhan o'r maes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig);

(ii) Bwyd a Llety;

(iii) Addysg y tu allan i Oriau Ysgol (Gwersi Ychwanegol Dewisol);

(iv) Adennill Costau Arholiad:

Pan fo plentyn yn sefyll arholiad nad yw'r ysgol wedi'i baratoi ar ei gyfer, e.e. wedi derbyn gwersi preifat, neu pan fo plentyn yn ailsefyll arholiad ac na roddwyd unrhyw wersi ychwanegol ar ei gyfer ers yr arholiad cyntaf, gellir codi'r tâl hwn ar y rhieni.

Os yw plentyn yn methu â chyflawni gofynion arholiad cyhoeddus (penodedig neu fel arall) heb reswm da (fel y'i diffiniwyd gan ba gorff bynnag a dalodd y ffi), gall yr Awdurdod Lleol neu'r Corff Llywodraethol adennill unrhyw ffi a dalwyd oddi wrth y rhieni.

Yn ôl y Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau dilynol), mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethol lunio'u polisïau eu hunain ynglŷn â threfniadau talu a rhyddhad rhag talu. Ni all y polisïau codi tâl a bennir gan y Corff Llywodraethol fod yn llai ffafriol na pholisi'r Awdurdod. Os oes angen rhagor o wybodaeth, gellir cael copi o'r ddogfen bolisi gan y Prifathro/Brifathrawes neu'r Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau.

CYRFF LLYWODRAETHOL YR YSGOLION

Ers 1 Medi, 1999 bu'n rhaid i bob ysgol gael ei chorff llywodraethol ei hun i gynnwys aelodau o'r gymuned leol, rhieni, athrawon a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol. Mae Cyrff Llywodraethol Ysgolion yr Eglwys (Gwirfoddol Gymorthedig a Gwirfoddol Reoledig) hefyd â chynrychiolwyr o awdurdod yr eglwys.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cyfres o Ddeddfau Addysg wedi cynyddu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyrff Llywodraethol yn sylweddol, yn ogystal â'u gwneud yn fwy atebol am eu gweithredoedd. Mae'r cyfrifoldeb o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd yn dal yn ddyletswydd y Prifathro/Brifathrawes, ond y Cyrff Llywodraethol sydd â goruchwyliaeth gyffredinol dros yr ysgol, yn enwedig ynglŷn â materion yn ymwneud â'r cwricwlwm, disgyblaeth, cyllid a staffio.

Er mwyn cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau, mae'r Awdurdod yn darparu cefnogaeth helaeth a rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar bob agwedd o gyfrifoldebau llywodraethwyr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyrff llywodraethol oddi wrth y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Dysgu a Phartneriaethau neu ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk

SUT Y CAIFF YSGOLION EU TREFNU A'R HYN A DDYSGIR I'R DISGYBLION – Y CWRICWLWM

Beth a olygir gan grwpiau blwyddyn a Chyfnodau Allweddol (CA)?

Mae dilyniant disgybl drwy flynyddoedd addysg orfodol yn cael ei rannu i bedwar cyfnod allweddol. Mae'r cyfnodau allweddol yr un fath ni waeth beth yw patrwm lleol trefniadaeth ysgol. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfnodau allweddol ar gyfer yr oedrannau plant a'r grwpiau blynyddoedd cyfatebol.

CYFNOD ALLWEDDOL	DISGRIFIAD O GRWPIAU		OED MWYAFRIF Y DISGYBLION AR DDIWEDD BLWYDDYN YSGOL
Cyfnod Sylfaen	Meithrin	- Rhan amser	3
		- Llawn amser	4
	Derbyn	- Blwyddyn 1af Babanod	4 - 5
	B 1	- Babanod	5 - 6
	B 2	- Babanod	6 - 7
CA2	B 3	- Blwyddyn 1af Iau	7 - 8
	B 4	- Iau	8 - 9
	B 5	- Iau	9 - 10
	B 6	- Iau	10 - 11
CA3	B 7	- Blwyddyn 1af Sector Uwchradd	11 - 12
	B 8	- 2ail flwyddyn Sector Uwchradd	12 - 13
	B 9	- 3edd flwyddyn Sector Uwchradd	13 - 14
CA4	B 10	- 4edd flwyddyn Sector Uwchradd	14 - 15
	B 11	- 5ed flwyddyn Sector Uwchradd	15 - 16
Chweched Dosbarth (CA5)	B 12	- Blwyddyn 1af / Chweched Isaf	16 - 17
	B 13	- 2ail flwyddyn / Chweched Uchaf	17 - 18

B - Blwyddyn

Rhaid nodi y gall rhai plant gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda phlant o grŵp oedran gwahanol. Gall Prifathrawon ateb ymholiadau ynglŷn â hyn.

ADDYSG GYNRADD

Yng Ngheredigion, mae 41 o ysgolion cynradd yn darparu ar gyfer plant 4 -11 oed.

Mae gan 10 o'r ysgolion cynradd yma ddosbarthiadau meithrin penodol yn gysylltiedig â hwy sy'n darparu ar gyfer plant 3 - 4 oed. Mae'r llythyren 'M' ar y rhestr ysgolion yn dynodi ysgolion sydd â dosbarthiadau meithrin. Mae gan yr ysgolion 3-16 a 3-19 ddosbarth meithrin hefyd.

(Mae'r Awdurdod Lleol, fodd bynnag, yn ariannu nifer o ddarparwyr nas cynhelir, e.e. Mudiad Meithrin, Meithrinfeydd Dydd a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, i ddarparu addysg ran-amser ar eu rhan. Ceir rhestr lawn o'r darparwyr hyn ar wefan gwybodaeth Ceredigion - cis.ceredigion.gov.uk.)

Mae tua 35% o ysgolion cynradd yr awdurdod â 50 neu lai o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn y mwyafrif o ysgolion, yr iaith Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.

Beth yw'r grwpiau blwyddyn ysgol o fewn ysgolion cynradd y Sir?

Yn dilyn trefn y Cwricwlwm Cenedlaethol dynodir y gwahanol grwpiau oed yn ôl blynyddoedd penodol – Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2 ac yn y blaen hyd at Blwyddyn 6.

Ar ôl iddynt ddathlu eu pen-blwyddi yn 11 oed dylai'r disgyblion i gyd drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Noder, bod yr addysg yn ddi-dor mewn ysgolion 3 i 16 a ysgolion 3 i 19.

Beth a ddysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Gynradd?

Mae'r holl ddisgyblion sydd o oed Ysgol gorfodol ac sydd mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol neu yn darparu Addysg ar ei rhan, yn dilyn Cwricwlwm 2008 ac addasiadau 2015. Rhennir y Cwricwlwm yn ddwy rhan:

- *Fframwaith Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015)*;

- *Cwricwlwm 2008 ar gyfer disgyblion 7 i 14 oed.*

Trefniwyd y Cwricwlwm ar sail dau Gyfnod - y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

O fis Medi 2015 daeth y *Fframwaith Cyfnod Sylfaen* yn weithredol i holl ddisgyblion meithrin i flwyddyn 2 sef disgyblion 3 i 7 oed. Mae Cyfnod Allweddol 2 yn berthnasol i flynyddoedd 3-6 sef ddisgyblion 7 i 11 oed.

Yn holl ysgolion Cymru mae'r meysydd dysgu canlynol wedi eu cynnwys yn y *Fframwaith Cyfnod Sylfaen*:

Cyfnod Sylfaen - Saith Maes Dysgu -

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol,
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu,
- Datblygiad Mathemategol,
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd,
- Datblygiad Corfforol,
- Datblygiad Creadigol,
- **Datblygu'r Gymraeg.

Addysg Grefyddol – Canllawiau ym Maes Llafur Cytun Ceredigion

***Ni fydd angen i leoliadau a'r ysgolion hynny a ddiffinnir fel darparwyr cyfrwng Cymraeg addysgu'r Maes Dysgu hwn. Mae'r darparwyr yn dilyn rhaglen addysg y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylid datblygu sgiliau Cymraeg plant drwy'r Cyfnod Sylfaen drwy weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.*

Asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen.

Yn unol â chyfarwyddyd statudol cynhelir asesiad o fewn chwe wythnos i'ch plentyn ddechrau ar eu blwyddyn derbyn. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar y pedwar maes dysgu canlynol: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg); Datblygiad Mathemategol; a Datblygiad Corfforol.

Yn holl ysgolion Cymru mae'r pynciau canlynol wedi eu cynnwys yng Nghyfnod Allweddol 2:

Pynciau Craidd – Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg.

Pynciau Sylfaenol – Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes.

Addysg Grefyddol – Canllawiau ym Maes Llafur Cytun.

Mae'r rhaglenni Astudio yn dweud beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion yn ystod Cyfnod Allweddol 2 ac mae'r Disgrifiadau Lefel yn disgrifio'r safonau a ddisgwylir o ran dysgu'r disgyblion. Mae datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn sgiliau a ddatblygir ar draws cwricwlwm ein hysgolion.

Cynhwysir gwybodaeth am y cwricwlwm ym mhob ysgol ym mhrosbectws yr ysgol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Phrifathro neu Brifathrawes eich ysgol leol, os gwelwch yn dda.

ADDYSG UWCHRADD

Beth a addysgir i fy mhlentyn yn yr Ysgol Uwchradd?

Mae'r holl ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sydd mewn ysgolion cynaledig yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Trefnir y Cwricwlwm Cenedlaethol ar sail dau Gyfnod Allweddol – Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

Mae Cyfnod Allweddol 3 yn berthnasol i flynyddoedd 7-9 (disgyblion 11-14 oed).

Mae Cyfnod Allweddol 4 yn berthnasol i flynyddoedd 10-11 (disgyblion 14-16 oed).

Yn 2008, diwygiwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru i roi pwyslais arbennig ar **ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)** ar draws pob un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd statudol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Yn holl ysgolion Cymru mae'r pynciau canlynol wedi eu cynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol:

Pynciau craidd – mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg.

Pynciau all-graidd – daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, ieithoedd tramor modern, addysg gorfforol, dylunio a thechnoleg, TGCh, hanes.

Yn ogystal, dysgir addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg gorfforol i bob disgybl.

Dynoda Raglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym mhob pwnc beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion yn ystod pob Cyfnod Allweddol ac mae'r Disgrifiadau Lefel yn disgrifio'r safonau a ddisgwylir o ran dysgu'r disgyblion.

Gosododd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir yn eu lle. O ran yr addysg a ddarperir i ddisgyblion 14-19, gelwir y canllawiau hyn yn **'Llwybrau Dysgu 14-19'.**

Mae'r Llwybrau Dysgu yn cynnwys cyfuniad o chwe elfen allweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau, dros amser, bod pob dysgwr yn cael y cyfuniad gorau o brofiadau dysgu i ddiwallu eu hanghenion. Yn ogystal, mae'r elfennau allweddol yn galluogi pobl sy'n dysgu i gael y cymorth a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i wireddu eu potensial. Y chwe elfen allweddol yw:

- llwybrau Dysgu unigol i ddiwallu anghenion pob dysgwr;
- rhagor o ddewis a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu;
- craidd Dysgu sy'n dechrau pan fydd y bobl ifanc yn 14 oed ac yn parhau hyd nes y byddant yn 19, ble bynnag y maent yn dysgu;
- cymorth Anogwr Dysgu;
- cyfle i gael cymorth personol;
- cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd.

Bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn annog rhagor o bobl ifanc i wireddu eu potensial fel y byddant wedi'u harfogi'n well ar gyfer byd gwaith ac yn ddinasyddion mwy gwybodus a gweithgar. Bydd yn gwneud hyn trwy helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn ennill gwell cymwysterau a bod cyfran uwch o bobl ifanc 16 oed yn mynd ymlaen i ddysgu mwy ym myd addysg a hyfforddiant, trwy gynnig rhagor o ddewis, hybu cyfle cyfartal a thrwy helpu i gyflawni eu potensial.

Mae Llwybrau Dysgu yn nodi'r hawl sydd gan bob disgybl i gael mynediad at ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau am ddarpariaeth addysg unrhyw un o'r bedair ysgol uwchradd, yr ysgol 3-16 neu'r ddwy ysgol 3-19 sydd o fewn Ceredigion, cysylltwch â Phrifathro neu Brifathrawes yr ysgol briodol, os gwelwch yn dda.

PROFION AC ARHOLIADAU

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion y ddeddf. Rhaid i'r holl arholiadau y bydd disgyblion yn paratoi ar eu cyfer yn ystod amser ysgol dderbyn cymeradwyaeth Cyngor Arholi ac Asesu'r Ysgolion. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi enwau disgyblion i lawr ar gyfer arholiadau o'r fath ar ôl ymgynghoriad priodol â'r rhieni, ac yn unol ag argymhelliad yr ysgol. Mae'r amserlen ar gyfer mwyafrif yr arholiadau allanol hyn yn cael ei threfnu gan CBAC (Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru).

DATGANIAD AR ARHOLIADAU CYHOEDDUS

Byddai'r Awdurdod Lleol yn cefnogi polisi y Corff Llywodraethol a fyddai'n sicrhau bod pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol, ar adeg briodol yn eu barn hwy, yn sefyll arholiad cyhoeddus penodedig ymhob maes llafur y paratoir ef ar ei gyfer yn yr Ysgol ar yr adeg dan sylw.

Nid oes gofyn i'r Corff Llywodraethol sicrhau bod disgybl yn sefyll arholiad, neu arholiad mewn unrhyw faes llafur ar gyfer yr arholiad hwnnw os yw naill ai:-

(a) y Corff Llywodraethol yn ystyried bod yna resymau addysgol yn achos y disgybl arbennig hwnnw am beidio â sefyll yr arholiad hwnnw neu (yn ôl yr achos) am beidio â sefyll yr arholiad hwnnw yn y maes llafur hwnnw, neu

(b) rhiant y disgybl yn gwneud cais ysgrifenedig am i'r disgybl beidio â sefyll yr arholiad hwnnw neu (yn ôl yr achos) yr arholiad hwnnw yn y maes llafur hwnnw.

Nid oes gofyn i'r Corff Llywodraethol sicrhau bod disgybl yn sefyll unrhyw arholiad mewn unrhyw faes llafur ar gyfer yr arholiad hwnnw os yw'r Corff Llywodraethol wedi sicrhau bod y disgybl hwnnw yn sefyll arholiad cyhoeddus penodedig arall mewn maes llafur cyfatebol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth o'r ysgol.

CREFYDD

Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â chrefydd mewn ysgolion?

Yn ysgolion sir a rheoledig yr Awdurdod Lleol mae'r holl addysg grefyddol yn cael ei darparu'n unol â'r Maes Llafur Cytunedig sydd yn ofynnol dan y ddeddf. Er bod yn rhaid i Addysg Grefyddol fod yn anenwadol, caniateir addysgu ynghylch gwahaniaethau enwadol a rhaid darparu addysg grefyddol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Rhaid i bob ysgol gynnal defod o addoliad cynulleidfaol bob dydd. Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) wedi paratoi cyngor ac arweiniad i'r ysgolion ar hyn.

Mae gan rieni hawl i dynnu eu plant o addysg grefyddol a gallant wneud hynny wedi iddynt roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol.

CWYNION YNGLŶN Â'R CWRICWLWM

Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf gŵyn ynglŷn â'r cwricwlwm a materion perthynol?

Os bydd gennych unrhyw ofidiau dylech eu trafod yn y lle cyntaf gyda'r Pennaeth.

Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno troi'r achwyniad yn un ffurfiol, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu trefniadaethau ac mae copi o'r rhain ar gael yn yr ysgol neu gan y Gwasanaethau Dysgu.

Lle bo hynny'n briodol, gall y sawl sy'n cyflwyno achwyniad ffurfiol osod eu cwynion gerbron Panel Apêl (Cysylltwch â'r Ysgol berthnasol neu'r Gwasanaethau Dysgu am wybodaeth bellach).

IAITH Y DYSGU

A oes rhaid i bob plentyn ddysgu Cymraeg a Saesneg?

Ar gyfer ysgolion yng Ngheredigion mae addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, yn un o'r gofynion **hanfodol sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.**

Gellir paratoi darpariaeth arbennig ar gyfer y grwpiau canlynol:

i) disgyblion sydd wedi symud i mewn i'r ardal yn ddiweddar – bydd gwersi ychwanegol yn yr iaith Gymraeg yn cael eu darparu ar eu cyfer mewn canolfannau iaith cyfagos ar gyfer disgyblion yn y sector gynradd.

ii) disgyblion sydd wedi derbyn asesiad swyddogol eu bod yn dioddef o anawsterau dysgu a lle gallai cyflwyno ail iaith dramgwyddo datblygiad addysgol a lle mae derbyn eu haddysg trwy gyfrwng eu hiaith gyntaf yn hanfodol.

iii) disgyblion tramor sydd heb fod â'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf a lle gallai cyflwyno trydedd iaith dramgwyddo eu datblygiad addysgol a lle mae dysgu'r Saesneg yn hanfodol iddynt.

Beth yw polisi'r Sir ynglŷn â dysgu Cymraeg a Saesneg o fewn ei hysgolion cynradd?

Mae gan Awdurdod Lleol Ceredigion bolisi pendant ar addysgu Cymraeg a Saesneg yn ei ysgolion. Nod yr Awdurdod Lleol yw addysgu disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Felly, bydd y disgyblion yn darganfod eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn y gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Er mwyn cefnogi datblygiad eich plentyn yn yr iaith Gymraeg rydym yn eich annog chi i ystyried sut yn ymarferol y bydd modd i'ch plentyn gael cyfleoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae modd gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- Annog eich plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, dan ofal yr Urdd, y Clybiau Ffermwyr Ifanc neu eraill;
- Cefnogi eich plentyn i ymarfer darllen llyfrau Cymraeg;
- Helpu eich plentyn i ddarganfod y cyfryngau Cymraeg – ar y teledu, y radio a'r we;
- Os nad ydych yn gallu siarad Cymraeg, gallwch roi cynnig ar ddysgu'r iaith law yn llaw â'ch plentyn. Mae'r gwersi'n hwyl ac mae dysgu'r Gymraeg yn agor drysau yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith yn ogystal. Rydym hefyd yn sefydlu mwy a mwy o ddosbarthiadau Cymraeg i'r Teulu, gwersi sydd wedi'u teilwra'n arbennig i rieni o ran yr amser a'r cynnwys.

Mae i rai rhannau o'r sir nodweddion diwylliannol ac ieithyddol penodol sy'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu polisi iaith effeithiol ar gyfer Ceredigion yn gyfan. Gweithredwyd y polisi trwy greu tri chategori ar gyfer ysgolion.

CATEGORI YSGOLION CYNRADD

Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg (CC) - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg yn achlysurol hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.

Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd (DF) - Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Dewisa'r rhieni/disgyblion naill ai'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg (SG) – Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Datblygir sgiliau Cymraeg plant yn raddol drwy'r Cyfnod Sylfaen drwy weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg.

Beth yw'r egwyddorion ar gyfer addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn Ysgolion Uwchradd y Sir?

Er mwyn parhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog yn llwyddiannus disgwylir yn gyffredinol i ddisgyblion sydd wedi astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hyn yn yr ysgol uwchradd. Gall disgyblion sydd wedi astudio Cymraeg fel ail iaith drosglwyddo, dan amgylchiadau penodol, i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae ysgolion uwchradd yn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol trwy ddarparu addysgu Cymraeg fel pwnc hyd at 16 oed ynghyd ag ystod o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Ceir manylion polisïau pob ysgol yn llawlyfr yr ysgol a Strategaeth Iaith Ysgolion y sir ar wefan y Cyngor.

CATEGORÏAU YSGOLION UWCHRADD

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog

Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran (gyda dim ond y 3 canlynol yn gymwys i ysgolion uwchradd Ceredigion), yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Ysgol.

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2A (ADd) – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2B (BDd) – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Ysgol Uwchradd Ddwyieithog – Categori 2C (CDd) – Addysgir 50 i 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg

Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg Yn Bennaf (CS) – Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall. Gan amlaf, bydd disgyblion sydd wedi eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn y sector gynradd yn parhau i wneud hynny yn y sector uwchradd.

ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA) A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

ANGHENION ADDYSG ARBENNIG (AAA)

Pa ddarpariaethau y gall plentyn ag anghenion arbennig eu disgwyl yng Ngheredigion?

Mae amrywiaeth o systemau cymorth i'w cael ar gyfer plant ag AAA yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

i) Bydd mwyafrif y plant yn derbyn cefnogaeth briodol yn eu hysgolion prif ffrwd lleol. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr angen gall hyn amrywio o gefnogaeth yr athro/athrawes dosbarth/pwnc hyd at Gynorthwywyr Dysgu a/neu gyfraniad athrawon arbenigol.

ii) **Canolfannau Adnoddau Arbenigol.** Mae'r unedau hyn yn darparu ar gyfer plant ag anableddau dwysach ac maent wedi eu staffio gan staff addysgu a staff ategol profiadol sydd â chymwysterau arbenigol.

iii) Ar gyfer y nifer fechan iawn o blant sydd ag anghenion dwys a chymhleth, gellir rhoi ystyriaeth i leoliad oddi allan i'r sir.

Gweithia'r **Gwasanaeth Seicoleg Addysg** i hybu datblygiad a dysgu plant a phobl ifanc drwy ddefnyddio seicoleg, gan weithio gydag unigolion a grwpiau o blant a phobl ifanc, athrawon, teuluoedd, ac asiantaethau eraill.

Mae Tîm Ymgynghorol AAA/ADY yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda staff ysgolion i ddarparu cyngor a chefnogaeth er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion ar draws yr ystod o AAA/ADY. Mae hyn yn cynnwys cefnogi disgyblion sydd ag anhawsterau clyw a/neu gweld.

Hefyd, mae **Tîm Plant Anabl amlasiantaeth** yn y Sir yn darparu cymorth a chefnogaeth i rieni plant cyn oed ysgol a phlant ysgol sydd ag anableddau.

Sut caiff anghenion disgyblion ag AAA eu canfod a'u hasesu a sut y darperir ar eu cyfer?

Mae'n bwysig canfod anghenion plant sydd ag AAA mor gynnar ag sydd bosibl.

Fel rheol, bydd plant o dan oed ysgol a all fod ag AAA yn cael eu cyfeirio i'r Awdurdod Lleol gan Fyrddau Iechyd y GIC, y Tîm Plant Anabl, Cynllun Cyfeirio MM/PPA neu Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, er y gellir eu cyfeirio gan y rhieni eu hunain. Gall anghenion y plentyn gael ei asesu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a/neu asiantaethau eraill ac o ganlyniad i hyn bydd darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn ar ôl trafodaeth lawn gyda'r rhieni.

Byddai plentyn sydd eisoes yn yr ysgol yn cael ei anghenion addysg arbennig wedi eu canfod gan y staff addysgu trwy gyfrwng arsylwi a chofnodi manwl neu gan weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn.

Mae'r **Côd Ymarfer AAA ar gyfer Cymru** yn darparu cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion cynaledig, gosodiadau'r blynyddoedd cynnar ac i eraill sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau statudol i ganfod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysg arbennig y plant.

Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

- dylid darparu ar gyfer pob plentyn ag anghenion addysg arbennig;
- byddir yn cwrdd ag anghenion addysg arbennig y plant o fewn ysgolion prif ffrwd fel arfer;
- dylid canfod sylwadau'r plentyn a chymryd ystyriaeth o hynny;
- mae gan rieni ran hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi addysg eu plant;
- dylai plant ag anghenion addysg arbennig gael mynediad llawn i addysg eang, cytbwys a pherthnasol.

Beth os bydd angen cefnogaeth a chyngor arnaf ynglŷn â darpariaeth AAA fy mhlentyn?

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Pennaeth a/neu'r Cydgysylltydd Anghenion Addysg Arbennig yn ysgol eich plentyn. Os na ddatrysir eich pryderon ar y lefel hon, mae'r ALl yn cynnig sesiynau galw-heibio lle gellir trafod eich pryderon. Yn ychwanegol gall yr ALl drefnu eich bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni SNAP (Prosiect Anghenion Arbennig Ymgynghorol) a'r Gwasanaeth Datrys Anghydfod.

Ni effeithir ar eich hawl i apelio at Dribiwnlys AAA Cymru os defnyddiwch y gwasanaeth uchod.

Beth os bydd rhaid i fy mhlentyn ag anghenion arbennig deithio i ysgol heblaw'r un lleol?

Pan fydd yr ALl yn enwi ysgol yn natganiad plentyn, a'i bod yn wahanol i'r un agosaf i le rydych chi'n byw, yr ALl sy'n gyfrifol am ddarparu cludiant. Gall yr ALl enwi'r ysgol a ffafrir gan rieni'r plentyn cyhyd â bod y rhieni'n cwrdd â'r costau trafnidiaeth.

Ble gallaf i gael gwybodaeth bellach ynglŷn ag AAA?

Gellir cael gwybodaeth bellach oddi wrth y **Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE.**

DARPARIAETHAU ERAILL

Os derbynnir fy mhlentyn i ysbyty pa gyfleusterau addysg a ddarperir ar ei gyfer yno?

Bydd darpariaeth addysgol ar gael mewn ysbytai pan fydd plant yn mynd i mewn am driniaeth ac yn gorfod aros yno am fwy nag ychydig ddyddiau. Mae gwasanaeth addysg yr ysbytai yn cynnal cysylltiad clòs ag ysgol arferol y plentyn er mwyn sicrhau bod dilyniant yn yr addysg.

A oes unrhyw achlysur pryd y mae'r Awdurdod Lleol yn darparu addysg gartref?

Darperir addysg ar yr aelwyd i rai plant, megis y rhai sydd gartref yn gwella ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, neu sydd â phroblemau meddygol ac sy'n methu mynychu'r ysgol dros dro.

Pe bai yna deimlad bod angen addysg ar yr aelwyd, bydd Prifathro neu Brifathrawes y plentyn, neu'r Swyddog Cynhwysiant Addysg (SCA) yr ardal, yn anfon cais at y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau.

SWYDDOGION CYNHWYSIANT ADDYSG

Beth yw swyddogaeth y Swyddog Cynhwysiant Addysg?

Caiff Ceredigion ei wasanaethu gan dîm o Swyddogion Cynhwysiant Addysg (SCA) sy'n darparu dolen gyswllt rhwng yr ysgol, y Gwasanaethau Dysgu, teuluoedd y disgyblion a'r plant/pobl ifanc.

Mae eu swyddogaeth yn gwbl wahanol i athrawon a'u bwriad yw sicrhau bod plant yn cael cymorth i elwa'n llawn ar eu haddysg. Bydd rhan fwyaf eu gwaith yn dod o'r ysgolion ond gallwch siarad â Swyddog Cynhwysiant Addysg ar unrhyw adeg pan fyddwch eisiau cyngor ynghylch:

Addysg eich plentyn/presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol

Newid ysgolion

Cyflogaeth plant (hynny yw, pan fydd swydd gan eich plentyn)

Perfformio (hynny yw, pan fydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn ffilmiau, dramâu, pantomeim a.y.b. yn ystod oriau ysgol)

Mynediad cyn oed ysgol

Salwch eich plentyn

Gwasanaethau cefnogol eraill

Mae SCA yn gwneud gwaith mewn Llysoedd Barn dros yr Awdurdod Lleol hefyd. Ar ôl cofrestru yn un o ysgolion y wladwriaeth mae'r rhiant wedi ymrwymo ei hunan i'r gyfraith o safbwynt presenoldeb yn yr ysgol ac felly os bydd yn methu â sicrhau presenoldeb da, mae'n eithaf tebyg y bydd y SCA yn dwyn achos gerbron Llys yr Ynadon, a allai arwain at osod dirwy hyd at fwyafswm o £1,000.

Mae'r SCA hefyd yn gyfrifol am weinyddu a danfon hysbysiadau cosb am absenoldebau heb awdurdod o'r ysgol (cyn gynted a dderbynnir cais o'r ysgol).

Mae SCA yn gyfrifol hefyd am wneud cais yn y Llys Achosion Teuluol am Orchmynion Goruchwylio Addysg. Mae taflen sy'n egluro ystyr hyn ar gael o'r Gwasanaethau Dysgu. Ffoniwch am gopi (Rhif ffôn: 01970 633634).

Mae'r SCA hefyd yn cynorthwyo i ddarparu addysg amgen i rai plant ym Mlynyddoedd 10 ac 11, er engrhaifft, profiad gwaith neu gymryd rhan mewn prosiect penodol, os yw'r ysgol yn teimlo y byddai hyn o fudd i'r disgybl.

Mae'r SCA hefyd yn monitro cynnydd addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal ac sydd o dan ofal yr Awdurdod Lleol.

Mae'r SCA hefyd yn cynrychioli'r Gwasanaethau Dysgu ar 'Wasaanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion'.

DIOGELU PLANT

Bydd pob ysgol yng Ngheredigion yn dilyn 'CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN 2008', dogfen canllaw 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015' a 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lleisiant 2014'. Mae pob ysgol yn y Sir yn meddu ar ystod o bolisiau yn ymwneud a diogelu gan gynnwys Polisi Amddiffyn Plant a Pholisi Gwrth-fwlio sy'n cael eu harchwilio'n flynyddol. Mae gan staff a gyflogir mewn ysgolion rôl allweddol mewn diogelu a hyrwyddo lles plant, a byddant yn adrodd ynglŷn â'r holl bryderon sy'n ymwneud â 'phlant mewn angen, gofal a chefnogaeth' neu 'amddiffyn plant' i Gydgysylltydd Amddiffyn Plant Enwebedig yr Ysgol. Mae holl staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ond bydd Cydgysylltwr Amddiffyn Plant yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant penodol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'r materion a ddaw at eu sylw. Cyn gwneud atgyfeiriad 'Plentyn Mewn Angen' neu 'Amddiffyn Plentyn', gallant ofyn am gyngor naill ai oddi wrth Swyddog Enwebedig yr ALl ar gyfer Amddiffyn Plant neu oddi wrth y Swyddog Dyletswydd yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion.

Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol ar gyfer diogelu plant. Pan fo'n briodol, dylid sicrhau caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti, ond ystyrir diddordeb y cyhoedd mewn amddiffyn plant bob amser yn bwysicach na diddordeb y cyhoedd i gadw cyfrinachedd neu dderbyn caniatâd oddi wrth deuluoedd. Diogelwch y plentyn yw'r brif ystyriaeth wrth bwyso a mesur y diddordebau hyn. Mae staff ein hysgolion yn derbyn hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â Diogelu ac Amddiffyn Plant.

GWASANAETHAU I DDISGYBLION

PRYDAU A LLAETH YSGOL

A oes prydau ar gael ymhob ysgol?

Oes. Gall eich plentyn brynu cinio yn yr ysgol. Fodd bynnag, os oes gan eich plentyn unrhyw ofynion meddygol o safbwynt diet, dylech drafod y mater gyda'r prifathro neu'r brifathrawes er mwyn i'r plentyn gael prydau bwyd addas. Mi fydd angen llythyr oddi wrth ddoctor neu ddietegydd y disgybl. Efallai y bydd plant yn dymuno dod â chinio parod o gartref. Os felly, byddant yn cael ei fwyta yn yr ysgol a byddant yn cael eu goruchwylio.

Prydau Ysgol

Caiff pob un o'n prydau bwyd ysgol eu gwneud yn ffres bob dydd, gan ddefnyddio cynhwysion naturiol a dulliau coginio traddodiadol. Lle bynnag mae hynny'n bosibl rydym yn gwneud ein gorau i ddod o hyd i'n cynhwysion yn lleol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn llwyr gefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i wella'r bwyd a'r ddiod sydd ar gael yn ysgolion Cymru, a hynny ar y cyd â "Blas am Oes" a ddaeth yn Fesur Statudol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym Medi 2013.

Manteision Prydau Bwyd Ysgol

- Gall eich plentyn fanteisio ar brydau bwyd iach a maethlon, ac arbed amser i chi oherwydd nad oes rhaid paratoi brechdanau.
- Mae plant yn cael budd o eistedd i lawr a bwyta gyda'i gilydd wrth y bwrdd ac mae yna anogaeth i flasu bwydydd newydd.
- Bydd eich plentyn yn datblygu arferion bwyta'n iach yn gynnar iawn a fydd, gobeithio, yn para am flynyddoedd eto i ddod.
- Bydd eich plentyn yn cael 1/3 o'i anghenion maethu dyddiol drwy fwyta pryd ysgol.
- Mae prydau bwyd ysgol yn gytbwys ac iach ac yn amrywio o'r naill ddiwrnod i'r llall.
- Rydym yn darparu ar gyfer llysieuwyr a phob deiet arbennig ac yn rhoi ystyriaeth i anghenion maethol crefyddol a meddygol.
- Gall eich plentyn ymuno mewn prydau bwyd ar themâu arbennig yn gysylltiad â phynciau sy'n cael eu haddysgu yn y dosbarth, a hefyd, mentrau cenedlaethol.

Cynigia prydau ysgol werth ardderchog am arian trwy ddarparu pryd o fwyd dau gwrs iachus a maethlon gyda diod.

Gwybodaeth am Alergenau

Ein Ryseitiau a'n Cynhwysion

O 13 Rhagfyr, 2014, bydd Rheoliad Darparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (FIC UE) yn dod i rym. Mae cyfraith yr UE wedi rhestru 14 o alergenau sydd angen eu nodi os cânt eu defnyddio fel cynhwysion pryd. Mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth ar gael o 13 Rhagfyr, 2014, yng nghegin ysgol eich plentyn ar gyfer pob eitem ar y fwydlen sy'n cynnwys unrhyw un o'r 14 alergen hyn fel cynhwysion.

Dyma'r 14 Alergen mwyaf - **Seleri, Grawnfwydydd sy'n cynnwys Glwten, Cramenogion, Wyau, Pysgod, Lwpin, Llaeth, Molysgiaid, Mwstard, Cnau, Cnau Mwnci, Hadau Sesame, Soia, Sylffwr Deuocsid.**

Sut i dalu am ginio ysgol eich plentyn

Mae Cinio Ysgol ar hyn o bryd yn costio **£2.35** y dydd (£11.75 yr wythnos). Dylai'r tâl gael ei roi ymlaen llaw bob dydd Llun i'r Clerc Ciniawau Ysgol yn yr ysgol. Y ffordd orau o dalu yw drwy siec, yn daledig i 'Cyngor Sir Ceredigion', ond bydd arian parod yn dderbyniol hefyd. Erbyn hyn mae amlenni arian cinio 'Alwyn yr Afal' ar gael yn ysgol eich plentyn.

A allaf i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer fy mhlentyn?

Gallwch, os ydych yn cwrdd â'r DDAU faen prawf canlynol : -

1. Mae'r plentyn/plant yn mynychu ysgolion a reolir gan Awdurdod Lleol Ceredigion
   AC
2. Mae'r disgybl/ion yn byw gyda rhiant, cymar neu warcheidwad cyfreithiol sydd ar y pryd yn derbyn:
   - Cymorthdal Incwm; neu
   - Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm; neu
   - Cymorth o dan Rhan VI y Ddeddf Mewnfudiad a Noddfa 1999; neu
   - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm (IR); neu
   - Credyd Treth Plant ond nid Credyd Treth Gwaith a bod gennych incwm blynyddol, fel y'i hasesir gan Gyllid a Thollau EM, sydd ddim yn fwy na £16,190 [gall cyfradd newydd fod yn weithredol o Ebrill 2017] **NODER: Os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith, nid ydych yn gymwys;** neu
   - Elfen Gwarantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth; neu
   - Taliadau Credyd Treth Gwaith ychwanegol - y taliadau ychwanegol y gall unigolyn eu derbyn am bedair wythnos yn ychwanegol ar ôl i'w hawl i dderbyn Credyd Treth Gwaith ddod i ben; neu
   - Credyd Cynhwysol

Gallwch ofyn am ffurflen gais yn eich ysgol neu gallwch gysylltu â'r Tîm Gwybodaeth Addysgol yn y Gwasanaethau Dysgu, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE (rhif ffôn: 01970 633650 neu e-bost: decsdata@ceredigion.gov.uk)

A yw disgyblion yn cael llaeth am ddim yn yr ysgol?

Yn unol â Rheoliad Bwydydd Lles 1988 mae'r Awdurdod yn darparu llaeth am ddim i ddisgyblion o dan bump oed. Hefyd, mae'r Awdurdod Lleol yn darparu llaeth ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn 1 a 2) yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru. Mae plant sy'n mynychu unedau anghenion arbennig y Sir yn cael llaeth am ddim hefyd.

Brecwast Ysgol am Ddim.

Mae brecwast ysgol am ddim ar gael mewn nifer o ysgolion cynradd y ALI, ac cheir clybiau cyn-ysgol mewn rhai ysgolion. Holwch yn eich ysgol am fanylion pellach.

GRANTIAU GWISG YSGOL A CHYNHALIAETH

A allaf wneud cais am grant ar gyfer gwisg ysgol?

Gallwch. Os yw'ch plentyn yn dechrau ym Mlwyddyn 7 ac yn derbyn Prydau Bwyd am Ddim ar adeg eich cais byddwch yn teilyngu Grant Gwisg Ysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Danfonir ffurflenni i deuluoedd teilwng o Fehefin ymlaen a rhaid eu dychwelyd erbyn 31ain Hydref. Estynnir y dyddiad cau i 31ain Ionawr i deuluoedd sy'n symud i mewn i Geredigion o du allan i Gymru.

Caiff trosglwyddiad BACS neu siec ei roi fel cyfraniad tuag at gostau yr eitemau o wisg ysgol sy'n dderbyniol yn nhyb corff llywodraethol yr ysgol.

A allaf wneud cais am lwfans cynhaliaeth?
Lwfans cymhelliant yw Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) sy'n cael ei dalu i bobl ifanc cymwys sy'n aros yn yr ysgol neu'r coleg ar ôl oedran gadael ysgol, gan fynychu'n rheolaidd a chyflawni nodau dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod angen cymorth ac anogaeth ychwanegol ar rai pobl ifanc o gartrefi ag incwm isel er mwyn iddynt barhau mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol a gwneud y gorau o'u cyfleoedd dysgu a datblygu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch ysgol uwchradd neu chwiliwch am 'EMA' yn y wefan: www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.

Mae fy mhlentyn wedi'i wahodd i gynrychioli'r Sir ar lefel genedlaethol. A allaf ymgeisio am unrhyw gefnogaeth?

Bydd y Gwasanaethau Dysgu yn ystyried ceisiadau oddi wrth ddisgyblion a wahoddir i fynychu cyrsiau cerddoriaeth ar lefel genedlaethol/rhyngwladol. Dylai disgyblion a wahoddir naill ai gysylltu â'r Athro Cerdd Teithiol neu e-bostio geraint.evans@ceredigion.gov.uk (01970 633614) i ofyn am ffurflen gais. Rhaid i'r ffurflen gais gael ei llenwi gan yr ymgeisydd a'i hawdurdodi gan yr arweinydd/tiwtor ar ôl cwblhau'r cwrs. Mae'r grant yn gyfraniad tuag at gost y cwrs ac mae ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol o fewn Ceredigion ar hyn o bryd. Rhai o'r cyrsiau sy'n teilyngu ystyriaeth yw Band Pres Ieuenctid Cenedlaethol, Corau Ieuenctid Cenedlaethol, Cerddorfa Jas Ieuenctid Cenedlaethol, Cerddorfa Chwyth Ieuenctid Cymru a Theatr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru.

Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOLION YNG NGHEREDIGION

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela Mewn Ysgolion yn wasanaeth proffesiynol, cyfrinachol sydd ar gael i ddisgyblion ysgolion uwchradd a blwyddyn 6 yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lle rheolaidd i bobl ifanc siarad a meddwl am y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â Fframwaith Moesegol Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain a'r Strategaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu ar gyfer gwasanaethau cwnsela sydd wedi'u sefydlu mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth cwnsela yn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac yn eu cefnogi wrth iddynt gyrraedd eu potensial. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cwnselwyr proffesiynol cymwysedig, arolygwyr a hyfforddwyr sydd â blynyddoedd o brofiad o weithio â phlant a phobl ifanc.

Cynllunir y gwasanaeth cwnsela ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc. Mae'n darparu:

- cwnsela un ac un ar gyfer pobl ifanc.
- hyfforddiant i staff pan wneir cais amdano.
- ymgynghoriaeth.
- cysylltiadau ag asiantaethau priodol eraill.
- gwaith grŵp ar ôl cysylltiad ag asiantaethau eraill.
- gwasanaeth a ddylai gael ei hybu fel cefnogaeth ac ni ddylai unrhyw stigma fod ynghlwm iddo.
- Ceir mynediad i sesiynau cwnsela un i un yn yr ysgol trwy bobl ifanc oed Uwchradd yn hunangyfeirio. Mae staff yr ysgol hefyd yn gallu cyfeirio, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phobl ifanc, a rhieni/warcheidwaid â chaniatâd yr unigolyn ifanc.

Mae pob ysgol yn dilyn canllawiau sydd yn Polisi Cwnsela Mewn Ysgolion Uwchradd Ceredigion. Ceir mynediad i'r polisi hwn ar ein gwefan:

http://www.ceredigion2020.org.uk/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=37993&langtoken=cym

CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL / COLEG

A ddarperir cludiant ysgol am ddim i bob plentyn?

Na. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant ysgol am ddim ar gyfer plant o oed ysgol statudol ar y sail ganlynol:

i) Disgyblion oed ysgol gynradd sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol gynradd briodol agosaf;

ii) Disgyblion oed ysgol uwchradd sy'n byw dros dair milltir o'r ysgol uwchradd briodol agosaf.

Ceir nifer o amgylchiadau dewisol lle gellir darparu cludiant.

DATGANIAD AR GLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG

1. DISGYBLION

Mae ymrwymiad yr ALl i ddarparu cludiant am ddim i hyrwyddo presenoldeb disgyblion mewn ysgol yn seiliedig ar Adran 509 y Ddeddf Addysg 1996 a Mesur Teithio (Cymru) 2008.

a) Bydd cludiant yn cael ei ddarparu am ddim i ddisgyblion oed cynradd ac uwchradd sy'n teithio dros bellter mwy na'r pellter cerdded statudol o'r brif fynedfa'r ysgol addas agosaf atynt.

Rhaid i ddisgybl sy'n gwneud cais am gymorth fod yn breswylydd Ceredigion. Os yw ef/hi yn mynychu'r ysgol addas agosaf, a bod y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol gymaint a, neu'n fwy na'r pellteroedd a nodwyd isod, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar eu cyfer fel rheol.

Disgyblion Oed Cynradd (o 5 mlwydd oed) - 2 filltir neu fwy o'r ysgol.

Disgyblion Oed Uwchradd - 3 milltir neu fwy o'r ysgol.

Caiff pellter ei fesur yn ôl y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol. (O ffordd fawr a gynhelir gan y cyngor sydd agosaf at yr eiddo, i brif fynedfa'r ysgol).

b) Gall cymorth gael ei ddarparu hefyd ar gyfer disgyblion o dan amgylchiadau arbennig ar sail:-

- ysgol yn llawn
- cau'r ysgol/ail drefnu ysgol(ion)
- diogelwch
- meddygol
- datganiad o anghenion addysgol arbennig
- newid man preswylio yn ystod blwyddyn olaf arholiadau
- parhau gyda chwrs astudio safon uwch nad yw ar gael yn yr ysgol a ddynodwyd
- credo grefyddol (o fewn radiws o 8 milltir i'r ysgol)
- myfyrwyr ôl-16

2. MYFYRWYR ADDYSG BELLACH

Cynigir cymorth i unigolion o 16 i 19 oed sy'n mynychu Coleg yn ôl y modd mwyaf economaidd ar sail gyffelyb i fyfyrwyr 16+ sy'n mynychu Ysgolion Uwchradd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol.

3. CYFFREDINOL

3.1 Er mwyn sicrhau bod y nifer a gludir ar gerbydau yn cydymffurfio â gofynion statudol bydd pob disgybl yn derbyn 'tocyn teithio' sy'n nodi'r cerbyd y maent yn teithio arno.

Er bod peth hyblygrwydd ar ddechrau Tymor yr Hydref, yn gyffredinol ni fydd disgyblion nad ydynt yn medru dangos tocyn priodol yn cael eu cludo gan y contractwr. [Mae'n bwysig felly os yw rhiant yn credu bod ei blentyn/phlentyn yn gymwys i dderbyn "cludiant am ddim" ei fod yn danfon ffurflen gais i'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol **erbyn 30 Ebrill, 2017.**]

3.2 Bydd mwyafrif y disgyblion sy'n hawlio cymorth yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u contractio'n arbennig i'r Awdurdod Lleol, ond o bryd i'w gilydd defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus neu cyflwynir lwfans teithio penodol i rieni/disgyblion sy'n defnyddio'u cerbydau eu hunain.

3.3 Ceir llyfryn gwybodaeth oddi wrth yr Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol yn cynnig cyngor a chanllawiau i ddisgyblion/myfyrwyr a rhieni ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud er mwyn sicrhau y teithir yn ôl ac ymlaen i'r ysgol/coleg yn ddiogel.

3.4 Lle defnyddir cerbydau dan gontract neu drafnidiaeth gyhoeddus, yna nid yw'n bosibl bob tro i drefnu bod cerbydau yn mynd heibio'n agos i gartrefi pob disgybl. Felly, bydd yn angenrheidiol i rieni wneud trefniadau i'w plant fynd a dod o'r man casglu agosaf ar gyfer y cerbyd. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na 1.5 milltir. YN YR ACHOSION HYN, GOFYNNIR AM GYMORTH Y RHIENI I HEBRWNG DISGYBLION YN DDIOGEL I'R CERBYDAU AC YN ÔL.

3.5 Gofynnir i rieni nodi y gallant apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â darparu cludiant am ddim. Dylid cyflwyno'r apêl ynghyd ag unrhyw dystiolaeth gefnogol i'r Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau o fewn 28 diwrnod o gael eich hysbysu o'r penderfyniad gwreiddiol.

Gellir cysylltu a'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol ar
01970 633555 neu
e.bost hpw@ceredigion.gov.uk

Y GWASANAETH ADDYSG GYMUNEDOL

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i ddysgu gydol oes. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i holl bobl yr ardal i wella ansawdd bywyd trwy ddysgu sgiliau newydd ac i gael mynediad at ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael wedi eu hanelu at gwrdd ag anghenion yr ifanc (drwy'r sectorau statudol a gwirfoddol) a'r sector oedolion.

Ar gyfer oedolion ceir dosbarthiadau yn ystod y dydd a chyda'r nos mewn sawl canolfan ledled y Sir. Mae'r dosbarthiadau yn cynnwys Cymraeg i Oedolion / Cymraeg i'r Teulu ynghyd â chyrsiau dwyieithog mewn sawl maes. Ceir gwybodaeth bellach ar wefan y Cyngor Sir: www.ceredigion.gov.uk neu hefyd www.dysgubro.org.uk

GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD CEREDIGION

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) Ceredigion yn wasanaeth diduedd ac am ddim, sy'n darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ar hyd a lled Ceredigion.

Ceir gwybodaeth am:

- Ddarparwyr gofal plant cofrestredig (yn cynnwys Clybiau ar Ol Ysgol, Clybiau Gwyliau, Gofalwyr Plant, Meithrinfeydd Dydd a gofal sessiynol);
- Wasanaethau Teuluol;
- Gyfeiriadur Gwasanaethau i blant a phobl ifanc;
- Addysg ac Hyfforddiant;
- Ddod yn Warchodwr plant a llawer, llawer mwy.

Er mwyn cyrraedd y wybodaeth hon, ffoniwch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar 01545 574187 neu e-bostiwch fis@ceredigion.gov.uk. Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan am ragor o wybodaeth sef http://fis.ceredigion.gov.uk

CYNGOR GYRFAOEDD

A yw disgyblion yn cael cynnig unrhyw gyngor ar yrfaoedd posibl?

Ydynt. Mae Cwmni Gyrfa Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i fyfyrwyr o fewn ysgolion a cholegau.

Mae Cwmni Gyrfa Cymru yn anelu at helpu pobl ifanc i wneud y penderfyniadau anodd hynny ynglŷn â'u dyfodol. Mae gan y cwmni wybodaeth arbenigol gyfoes am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac fe welir disgyblion, mewn grwpiau neu'n unigol pan fo angen, gan Ymgynghorwyr Gyrfa yn yr Ysgol, neu yn un o'r canolfannau, i'w cynorthwyo i gynllunio eu dyfodol drwy:-

- cynghori ynglŷn â pha bynciau i'w hastudio ac arwyddocâd eu penderfyniad;
- rhoi cymorth iddynt lunio cynllun gweithredu ar gyfer dilyniant mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- eu hysbysu o wybodaeth ynglŷn â'r farchnad lafur, swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddi, a chyrsiau, gofynion mynediad a cheisiadau i golegau;
- darparu cymorth arbenigol ar gyfer y rhai ag anableddau a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle.

Mae Cwmni Gyrfa Cymru yn ceisio sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael ac mae'n annog ymglymiad y rhieni drwy gydol y broses gyfarwyddyd.

Gellir cysylltu â Swyddogion Gyrfaoedd drwy'r Ysgol neu ganolfannau Cwmni Gyrfa Cymru:

- 2 Canolfan yr Ysgubor, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, SY23 1LN; ffôn: 01970 636150
- Tŷ Garth, 19 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AA; ffôn: 01570 421347
- 9 Heol y Priordy, Aberteifi, SA43 1BU; ffôn: 01239 622100